Kirsty Williams AC

Y Gweinidog Addysg

Llywodraeth Cymru

27 Medi 2019

Annwyl Kirsty,

**Astudiaeth Ddichonoldeb Addysg Cerddoriaeth**

Cyhoeddodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ei adroddiad 'Taro'r Tant: ariannu addysg cerddoriaeth a gwella mynediad ati', ym mis Mehefin 2018. Roedd un o'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru yn ymwneud â darparu gwasanaethau cerddoriaeth mewn ysgolion:

> *Dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth i gorff cenedlaethol hyd braich sydd â model a phatrwm penodol ar gyfer darpariaeth pob rhanbarth. Dylai'r corff cenedlaethol gael cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru a dylid ei wneud yn gyfrifol am sicrhau bod disgyblion a staff sy'n gweithio yn y sector addysg cerddoriaeth, ni waeth lle y maent na beth yw eu cefndir cymdeithasol, yn elwa ar gyfleoedd cyfartal; Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan y corff cyfrifol unrhyw arian ychwanegol sydd ei angen er mwyn cynnal cydraddoldeb mynediad ar lefel Cymru gyfan. '*

Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn fe wnaethoch ysgrifennu:

> *Cytunir ar yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, yn amodol ar ganlyniad astudiaeth ddichonoldeb i nodi ac asesu'r opsiynau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cerddoriaeth, gan gynnwys addasrwydd un sefydliad i lywio'r maes hwn; a faint o gyllideb sydd ar gael i roi casgliadau'r astudiaeth gychwynnol ar waith. I ddechrau, rydym yn cynnig cynnal proses ymgynghori gychwynnol i gael barn rhanddeiliaid a phartneriaid ar y mater hwn, ond yr awdurdodau lleol fydd â'r gair olaf.*
>
> *Byddai angen ystyried goblygiadau'r gyllideb ar awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill wrth weithredu'r argymhelliad hwn, yn sgil casgliadau'r astudiaeth ddichonoldeb.*
>
> *Byddwn yn adrodd am hynt yr astudiaeth ddichonoldeb hon i'r Pwyllgor, cyn pen chwe mis.*

Rwy'n deall bod yr astudiaeth ddichonoldeb hon wedi'i chwblhau ac rydych yn ei hystyried ar hyn o bryd. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddod i'n cyfarfod ar 14 Tachwedd rhwng 11.00 a 12.00 i drafod canfyddiadau'r astudiaeth a sut y byddwch yn eu gweithredu. A allwch chi ddarparu copi o'r adroddiad dichonoldeb i'r Pwyllgor, a'ch ymateb iddo, erbyn 30 Hydref er mwyn inni ei ystyried cyn y sesiwn?

Cefais fy nghalonogi gan eich ymateb cadarnhaol i’n hadroddiad ac edrychaf ymlaen at drafod y cynnydd o ran darparu mynediad i addysg cerddoriaeth.

Yn gywir,

Bethan Sayed.

Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/KW/5247/19

Bethan Sayed
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

23 Hydref 2019

Annwyl Bethan,

**Astudiaeth Ddichonoldeb Addysg Cerddoriaeth**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Medi yn fy ngwahodd i fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 14 Tachwedd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr astudiaeth ddichonoldeb addysg cerddoriaeth.

Fel y gwyddoch, yn dilyn adroddiad y Pwyllgor mae fy swyddogion wedi symud ymlaen â'r gwaith yn y maes pwysig hwn mewn ymateb i'ch argymhellion.

Cytunais i gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb er mwyn pennu ac asesu opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau addysg cerddoriaeth yn y dyfodol. I ddechrau, cynigiais gynnal ymarfer ymgynghori i geisio barn rhanddeiliaid a phartneriaid ar y mater hwn. Cynhaliodd fy swyddogion yr ymarfer hwn, ac ar ôl ystyried yr wybodaeth a ddaeth i law, cytunais i gaffael contractiwr annibynnol i gynnal yr astudiaeth ddichonoldeb.

Prif amcanion yr astudiaeth ddichonoldeb oedd:

- adolygu'r dystiolaeth bresennol a chynhyrchu tystiolaeth newydd i bennu'r dulliau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer darparu gwasanaethau addysg cerddoriaeth ar hyd a lled Cymru
- nodi arferion gorau'r dulliau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer darparu gwasanaethau addysg cerddoriaeth ar hyd a lled Cymru
- ystyried modelau gwahanol o wasanaethau cerddoriaeth a phennu'r angen a'r galw am wasanaethau o'r fath ac argymell, fel y bo'n briodol, y dulliau sydd eu hangen i gefnogi modelau eraill
- adolygu'r dystiolaeth bresennol a chynhyrchu tystiolaeth newydd i ystyried dichonoldeb yr opsiynau i ddarparu gwasanaethau addysg cerddoriaeth, gan gynnwys:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ystyried a ddylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau i un corff 'hyd braich' cenedlaethol a chyflwyno, fel y bo'n briodol, opsiynau am y math o gorff a'r opsiynau ariannu ar gyfer unrhyw gynnig

- adnabod ac ystyried pa opsiynau eraill a allai fod yn ymarferol i'w cyflawni o ran darparu gwasanaethau cerddoriaeth ar hyd a lled Cymru
- ystyried a ddylid paratoi Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth, ac os felly, nodi ac argymell cynnwys y cynllun cenedlaethol ar gyfer addysg cerddoriaeth.


Rydym wedi cael copi o'r adroddiad drafft gan y contractiwr annibynnol a gynhaliodd yr astudiaeth ddichonoldeb. Mae'r adroddiad drafft wedi tynnu sylw at rai problemau wrth gasglu tystiolaeth, ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r contractiwr i ddatrys y problemau hynny a sicrhau bod gennym yr holl dystiolaeth sydd ei angen i ystyried ein hopsiynau. Mae'n bwysig i'r holl randdeiliaid gael cyfle i gymryd rhan. Rydym yn edrych ymlaen at gael derbyn yr adroddiad terfynol yn fuan.

Rwy'n parhau i gydnabod y pwysau sydd ar wasanaethau cerddoriaeth ar hyn o bryd, ond fel y dywedais o'r blaen, ac rwy'n siŵr eich bod yn cytuno, mae'n rhaid i ni edrych ar y mater hwn yn briodol ac yn drylwyr. Mae fy swyddogion yn y broses o ddosbarthu cyllid ychwanegol i'r awdurdodau lleol i gefnogi darpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth ar draws Cymru yn ystod 2019-20.

Er bod disgwyl i adroddiad terfynol yr astudiaeth ddichonoldeb fod yn barod cyn hir, mae'n annhebygol o fod ar gael i'w ystyried erbyn y cyfarfod ar 14 Tachwedd. Yn anffodus, felly, rhaid i mi wrthod eich gwahoddiad ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, byddaf yn sicrhau bod copi o'r adroddiad a'm hymateb yn cael eu hanfon atoch cyn gynted ag y byddant ar gael, ac fe fyddwn yn barod iawn i gyfarfod â chi a'r Pwyllgor i drafod yn y man.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education